# LOOKED AFTER CHILDREN POLICY

At Wibli Wobli Nursery we are committed to providing a welcoming and inclusive quality environment for all children and families.

**Definition and legal framework**

The description ‘looked after’ is generally used to describe a child who is looked after by the local authority. This includes children who are subject to a care order or temporarily classed as looked after on a planned basis for short breaks or respite care. Most looked after children will be cared for by foster carers with a small minority in children’s homes, looked after by family members or even placed back within the family home.

The term 'looked after child' denotes a child's current legal status. The nursery never uses this term to categorise a child as standing out from others or refers to a child using acronyms such as LAC.

The legal framework for this policy is underpinned by or supported through:

- Childcare Act 2006
- Children Act (1989)
- Adoption & Children Act (2002)
- Children & Young Person Act (2002)
- Children and Families Act (2014)
- Social Services and Well-being (Wales) Act 2014
- Children and Social Work Act (2017)

**Our policy**

Our nursery treats each child as an individual. We recognise that for young children to get the most out of educational opportunities they need to be settled appropriately with their carer. We will discuss with the child’s carer, and social worker where applicable, the length of time the child has been with their carer before they start nursery to establish how secure the child feels and whether they are ready to be able to cope with further separation, a new environment and new expectations made upon them.

We are aware that there a number of reasons why a child may go into care and these reasons may or may not include traumatic experiences or abuse. All our practitioners are committed to doing all they can to support all children to achieve their full potential. The nursery staff team are all trained to understand our safeguarding policy and procedures. Additional training to support children’s individual needs will be planned for where appropriate. Practitioners are supported by management at all times and we have an open door policy if they need to discuss any sensitive issues regarding the child.

Where applicable, we contribute to any assessment about the child, such as those carried out under the Common Assessment Framework (CAF) and to any multi-agency meetings, case conferences or strategy

meetings in relation to the child's learning and development. The designated person for looked after children and/or the child's key worker will attend meetings as appropriate.

The Nursery Manager is responsible for looked after children attending the setting.

Each child is allocated a key worker. The key worker will support the child initially with transition and settling in and then continue to support and build up a relationship with the child, carers and any other agencies involved. Regular contact will be maintained with the carers throughout the child's time at the nursery and with the social worker or other professionals (where applicable).

The key worker will carry out regular ongoing practice such as observations  to build up a picture of the child's interests, and plan activitiesaccordingly to support the child's stage of learning and development and interests. This information will be shared with carers and other professionals as appropriate as well as any concerns surrounding their developmental stages.

Where necessary we will develop a care plan with carers and professionals. This will include:

- The child's emotional needs and how they are to be met
- How any emotional issues and problems that affect behaviour are to be managed
- The child's sense of self, culture, language/s and identity - how this is to be supported
- The child's need for sociability and friendship
- The child's interests and abilities and possible learning journey pathway
- How any special needs will be supported.

In addition, the care plan may also consider:

- How information will be shared with the foster carer and local authority (as the 'corporate parent') as well as what information is shared with any other organisation or professionals and how it will be recorded and stored
- What contact the child has with his/her birth parent(s) and what arrangements will be in place for supervised contact. If this is to be in the setting, when, where and what form the contact will take will be discussed and agreed
- Who may collect the child from nursery and who may receive information about the child
- What written reporting is required
- Wherever possible, and where the plan is for the child to return to their home, the birth parent(s) should be involved in planning
- With the social worker's agreement, and as part of the plan, whether the birth parent(s) should be involved in the setting's activities that include parents, such as outings, fun days etc. alongside the foster carer.

Where applicable, we will complete a Personal Education Plan (PEP) for any children aged three to five in partnership with the social worker and/or care manager and carers. We will also attend all appropriate meetings and contribute to reviews.

The key worker and the designated person for 'looked after children' will work together to ensure any onward transition to school or another nursery is handled sensitively to ensure that this is as smooth as possible and all necessary information is shared. The child's individual file, including observations, photographs and pieces of art work and mark making will be passed on to the carer at this stage.

**Private Fostering**

Private fostering is an arrangement made between the parent and the private foster carer, who then becomes responsible for caring for the child in such a way as to safeguard and promote their welfare.

A privately fostered child is a child under the age of 16 (18 if a disabled child) who is cared for and provided with accommodation etc. for more than 28 days and where the care is intended to continue by someone other than:

- The parents
- A person who is not a parent but has parental responsibility
- A close relative
- The Local Authority

It is a statutory duty for us to inform the local authority where we are made aware of a child who may be subject to private fostering arrangements. We will do this by contacting the local authority children's social care team.

| This policy was adopted on | Signed on behalf of the nursery | Date for review |
|---|---|---|
| *1/4/2025* | *N. Baker* | *April 2027* |

# POLISI PLANT SY'N DERBYN GOFAL

Ym Miethrinfa Wibli Wobli rydym yn ymroddedig i ddarparu amgylchedd croesawgar a chynhwysol o safon ar gyfer plant a'u teuluoedd.

**Diffiniad a fframwaith cyfreithiol**
Fel rheol, mae'r disgrifiad 'sy'n derbyn gofal' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio plentyn sydd yng ngofal yr awdurdod lleol. Mae hyn yn cynnwys plant sy'n destun gorchymyn gofal neu sydd wedi eu dosbarthu dros dro fel plant sy'n derbyn gofal ar sail gynlluniedig am gyfnodau byr neu ofal seibiant. Bydd y rhan fwyaf o blant yn derbyn gofal gan ofalwyr maeth, gyda lleiafrif bychan mewn cartrefi plant, yng ngofal aelodau o'r teulu neu hyd yn oed yn ôl yn y cartref teuluol.

Mae'r term 'plentyn sy'n derbyn gofal' yn nodi statws cyfreithiol cyfredol plentyn. Nid yw'r feithrinfa byth yn defnyddio'r term yma i gategoreiddio plentyn i fod yn wahanol i eraill nac yn cyfeirio at y plentyn gan ddefnyddio acronymau fel LAC (looked-after children).

Mae fframwaith cyfreithiol y polisi hwn wedi ei danategu neu ei gynnal gan:
- Deddf Gofal Plant 2006
- Deddf Plant (1989)
- Deddf Mabwysiadu a Phlant (2002)
- Deddf Plant a Phobl Ifanc (2002)
- Deddf Plant a Theuluoedd (2014)
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Deddf Plant a Gwaith Cymdeithasol (2017).

**Ein polisi**
Mae'r feithrinfa yn trin pob plentyn fel unigolyn. Er mwyn i blant gael y gorau o'u cyfleoedd addysgol mae angen iddynt gynefino mewn modd briodol â'u gofalwr. Byddwn yn trafod gyda gofalwr y plentyn a'r gweithiwr cymdeithasol, ble mae hynny'n berthnasol, pa mor hir mae'r plentyn wedi bod gyda'u gofalwr cyn dechrau yn y feithrinfa i fedru sefydlu pa mor ddiogel mae'r plentyn yn teimlo ac a ydynt yn barod i fedru ymdopi â gwahaniad pellach, amgylchedd newydd a disgwyliadau newydd.

Rydym yn ymwybodol y gall plentyn fod mewn gofal am sawl rheswm, a all gynnwys profiadau trawmatig neu gamdriniaeth neu beidio. Mae pob ymarferydd sydd gennym yn ymroddedig i wneud popeth posib i gynnal pob plentyn i gyrraedd eu llawn botensial. Mae tîm staff y feithrinfa wedi eu hyfforddi i ddeall ein polisi a'n gweithdrefnau diogelu. Bydd hyfforddiant ychwanegol i gynnal anghenion unigol plant yn cael ei gynllunio pan fo hynny'n briodol. Mae'r rheolwyr yn cefnogi'r ymarferwyr ar bob achlysur ac mae gennym bolisi drws agored os ydynt am drafod unrhyw faterion sensitif sy'n ymwneud â'r plentyn.

Pan fo hynny'n berthnasol, rydym yn cyfrannu at unrhyw asesiad ynghylch y plentyn, megis asesiadau a wneir dan y Fframwaith Asesu Cyffredin ac unrhyw gyfarfodydd aml-asiantaeth, cynadleddau achos neu

gyfarfodydd strategaeth mewn perthynas â dysgu a datblygiad y plentyn. Bydd y person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a/ neu berson allweddol y plentyn yn mynychu'r cyfarfodydd fel sy'n briodol.

Rheolwr y Feithrinfa sy'n gyfrifol am blant sy'n derbyn gofal sy'n mynychu'r lleoliad.

Mae gweithiwr allweddol yn cael ei ddynodi ar gyfer pob plentyn. Bydd y gweithiwr allweddol yn cynnal y plentyn yn y lle cyntaf wrth bontio a setlo i'r feithrinfa ac yna'n parhau i gynnal ac adeiladu perthynas gyda'r plant, y gofalwyr a'r asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r plentyn. Bydd cyswllt rheolaidd yn cael ei gynnal gyda'r gofalwyr gydol amser y plentyn yn y feithrinfa a gyda'r gweithiwr cymdeithasol neu weithwyr proffesiynol eraill (ble mae hynny'n berthnasol).

Bydd y person allweddol yn cynnal ymarfer parhaus megis arsylwadau i adeiladu darlun o ddiddordebau'r plentyn, a chynllunio gweithgareddau fel sydd eu hangen i gynnal cyfnod dysgu a datblygiad a diddordebau'r plentyn. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu gyda gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill fel sy'n briodol, yn ogystal ag unrhyw bryderon ynglŷn â'u camau datblygiadol.

Pan fo'n angenrheidiol, byddwn yn datblygu cynllun gofal gyda gofalwyr a gweithwyr proffesiynol. Bydd hyn yn cynnwys:

- Anghenion emosiynol y plentyn a sut maent i'w diwallu
- Sut mae unrhyw faterion a phroblemau emosiynol sy'n effeithio ymddygiad i gael eu rheoli
- Ymdeimlad y plentyn o'r hunan, diwylliant iaith/ieithoedd a hunaniaeth - sut mae hyn i gael ei gynnal
- Angen y plentyn am gymdeithasgarwch a chyfeillgarwch
- Diddordebau a galluoedd y plentyn a llwybr taith ddysgu posib
- Sut mae unrhyw anghenion arbennig i gael eu cynnal.

Yn ychwanegol i hyn gall y cynllun gofal hefyd roi ystyriaeth i:

- Sut bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda'r gofalwr maeth a'r awdurdod lleol (y 'rhiant corfforaethol') yn ogystal â pha wybodaeth sydd i'w rhannu gydag unrhyw fudiad neu weithwyr proffesiynol eraill a sut bydd yn cael ei chofnodi a'i chadw
- Pa gyswllt sydd gan y plentyn gyda'i riant/rhieni biolegol a pha drefniadau a wnaed ar gyfer cyswllt dan oruchwyliaeth. Os yw hyn i ddigwydd yn y lleoliad, bydd pryd, ble a pha ffurf o gyswllt i gael ei drafod a'i gytuno
- Pwy all gasglu'r plentyn o'r feithrinfa a phwy all dderbyn gwybodaeth am y plentyn
- Pa adroddiadau ysgrifenedig sydd eu hangen
- Ble bynnag bo hynny'n bosib, a phan fo'r plentyn i ddychwelyd i'w gartref, dylai'r rhiant/rhieni biolegol fod yn rhan o'r cynllunio
- Gyda chytundeb y gweithiwr cymdeithasol, ac fel rhan o'r cynllun, a ddylai'r rhiant/rhieni biolegol fod yn rhan o weithgareddau'r lleoliad sy'n cynnwys rhieni, megis gwibdeithiau, dyddiau hwyl ayb ochr yn ochr â'r gofalwr maeth.

Ble mae hynny'n briodol, byddwn yn cwblhau Cynllun Addysg Personol (CAP) ar gyfer unrhyw blentyn tair i bump oed mewn partneriaeth â'r gweithiwr cymdeithasol a/neu'r rheolwr gofal a'r gofalwyr. Byddwn hefyd yn mynychu cyfarfodydd priodol ac yn cyfrannu i adolygiadau.

Bydd y gweithiwr allweddol a'r person dynodedig ar gyfer 'plant sy'n derbyn gofal' yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y pontio i'r ysgol yn cael ei drafod gyda sensitifrwydd i sicrhau bod hyn yn digwydd mor esmwyth â phosib a bod pob gwybodaeth hanfodol yn cael ei rhannu. Bydd ffeil unigol y plentyn, gan gynnwys sylwadau, ffotograffau a darnau o waith celf a gwaith gwneud marciau yn cael ei roi i'r gofalwr ar y pwynt yma.

**Maethu Preifat**
Mae maethu preifat yn drefniant sy'n cael ei wneud rhwng y rhiant a'r gofalwr maeth preifat, sydd yna'n dod yn gyfrifol am ofalu am y plentyn mewn modd sydd yn diogelu a hyrwyddo eu lles.

Plentyn sydd yn cael ei faethu'n breifat yw plentyn dan 16 mlwydd oed (18 mlwydd oed os yw'r plentyn yn anabl) sydd yn derbyn gofal a llety, ac ati, am 28 diwrnod neu ragor, a ble mae bwriad i'r gofal barhau gan berson arall ac nid:

- Y rhieni
- Person sydd ddim yn rhiant ond sydd â chyfrifoldeb rhiant
- Perthynas agos
- Yr Awdurdod Lleol

Mae gennym ddyletswydd statudol i hysbysu'r awdurdod lleol pan ddown yn ymwybodol bod plentyn yn destun trefniadau maethu preifat. Byddwn yn gwneud hyn drwy gysylltu â thîm gofal cymdeithasol plant yr awdurdod lleol.

| Mabwysiadwyd y polisi hwn ar | Llofnodwyd ar ran y feithrinfa | Dyddiad adolygiad nesaf |
|---|---|---|
| *1/4/2026* | *N. Baker* | *Ebrill 2027* |